# Polisi Gwirfoddoli

## Ynglŷn â Friends of Friendless Churches

Mae Friends of Friendless Churches (FoFC) yn elusen fach gyda thasg fawr. Fe'n sefydlwyd ym 1957 i ymgyrchu dros eglwysi hardd sydd wedi cau ar gyfer addoliad rheolaidd a'u hachub rhag cael eu dymchwel, pydru a thrawsnewid digydymdeimlad. Heddiw rydym yn gofalu am fwy na 60 o adeiladau sydd o bwys pensaernïol a hanesyddol ledled Cymru a Lloegr, sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn achub ac yn cynnal y lleoedd hanesyddol hyn, ac yn eu rhannu â phobl a fydd hefyd yn gofalu amdanynt (ac yn edrych ar eu holau) ac yn helpu i'w cadw'n 'fyw' – eu cadw ar agor i ymweld â nhw a'u mwynhau, ac i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau achlysurol.

## Ein gwirfoddolwyr

Drwy roi eu hamser, heb dâl, i wneud gweithgareddau sy'n ein cefnogi, gwirfoddolwyr yw calon ac enaid FoFC. Fel elusen fach ond brysur gyda chasgliad amrywiol o adeiladau ar wasgar, heb wirfoddolwyr ni allem gyflawni popeth a wnawn. Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i FoFC. Maen nhw'n ein helpu ni i:

- Gofalu am ein heglwysi a'n capeli a'u rhannu.
- Eu cadw ar agor i ymwelwyr.
- Elwa o wybodaeth, sgiliau ac angerdd gwirfoddolwyr. Rydym yn cefnogi ein gwirfoddolwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a chael profiad cadarnhaol yn gyfnewid.

## Gwirfoddoli gyda ni

Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi gwirfoddolwyr oherwydd:

- Rydym am dyfu ein cymuned a chynnig cyfleoedd pleserus i'n haelodau, cefnogwyr ac eraill gymryd rhan weithredol yn FoFC, ei adeiladau a'i waith, ochr yn ochr â phobl eraill o'r un anian.
- Mae FoFC yn sefydliad 'ymarferol, barddonol, egwyddorol' — cyfeillgar, cynhwysol, arbenigol, angerddol ac ymroddedig. Rydym wedi ymrwymo i ansawdd a dilysrwydd ym mhopeth a wnawn.

**Mae gennym gyfleoedd gwirfoddoli tymor byr a thymor hir, a gobeithio y bydd yna rôl sy'n apelio i chi. Fodd bynnag, nid ydym yn gallu cynnig lleoliadau profiad gwaith. Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn i wirfoddoli gyda ni.**

Rydym yn gwerthfawrogi amser ac ymroddiad ein gwirfoddolwyr, ond rydym yn cydnabod bod pethau'n newid ac weithiau efallai na fydd gwirfoddolwyr yn gallu neu eisiau parhau. Gall gwirfoddolwyr roi'r gorau iddi ar unrhyw adeg, neu gymryd seibiant os oes angen, ond gofynnwn iddyn nhw roi gwybod i ni. Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, mae gennym gamau ar waith i ddelio â hynny.

**Mae'r Polisi Gwirfoddoli hwn yn nodi sut mae FoFC yn recriwtio gwirfoddolwyr, yn gweithio gyda nhw ac yn eu yn cefnogi. Mae hefyd yn egluro beth rydym yn ei ofyn gan wirfoddolwyr a beth y gallant ei ddisgwyl gennym ni.**

Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech gael y polisi hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod i ni.
E: volunteers@fofc.org.uk T: 020 4520 4458 (swyddfa FoFC)

## Recriwtio – Sut rydym yn dod o hyd i wirfoddolwyr

Nod Friends of Friendless Churches yw darparu amgylchedd diogel a chroesawgar i bawb. Rydym ni wedi ymrwymo i drin pawb yn gyfartal a chyda pharch, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, ac rydym ni'n disgwyl i'n pobl — staff a gwirfoddolwyr fel ei gilydd — gydymffurfio â'r ymrwymiad hwn. Nid yw FoFC yn goddef iaith nac ymddygiad gwahaniaethol, a bydd unrhyw achosion yn cael eu trin yn brydlon o dan ein gweithdrefn datrys problemau.

- Proses ymgeisio
  - **Disgrifiad rôl** — yn nodi'n glir beth fydd y gwirfoddolwr yn ei wneud a pha sgiliau, profiad neu rinweddau sydd eu hangen.
  - **Ffurflen wybodaeth gwirfoddolwyr** — yn casglu gwybodaeth hanfodol am wirfoddolwr posibl.
  - **Sgwrs ar y ffôn neu ar-lein** — i drafod diddordebau, sgiliau a phrofiad y darpar wirfoddolwr. Byddwn yn gwirio eu bod yn deall y rôl ac yn asesu a yw'n addas iddyn nhw. Gallwn ateb eu cwestiynau a, phan fo'n briodol, trafod cwmpas unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen arnynt er mwyn ymgymryd â rôl wirfoddol.
  - **Geirda** — gofynnwn i ddarpar wirfoddolwyr ddarparu manylion rhywun (ffrind neu gydweithiwr, nid aelod o'r teulu) sy'n eu hadnabod yn dda, y gallwn gysylltu â nhw i gadarnhau'r wybodaeth maen nhw wedi'i rhoi i ni. Mae angen i'n gwirfoddolwyr fod yn ddibynadwy ac yn rhywun y gellir ymddiried ynddynt. Mae gofyn am eirda yn diogelu holl bobl FoFC, ei adeiladau, aelodau'r cyhoedd a'r gwirfoddolwr.
  - **Cytundeb gwirfoddolwyr** — wedi'i lofnodi gan FoFC a'r gwirfoddolwr pan fyddant yn ymuno â ni. Mae hyn yn egluro'r hyn rydyn ni a nhw i gyd yn cytuno i'w wneud. Mae llofnodi yn cadarnhau bod y gwirfoddolwr yn deall ac yn hapus gyda'i rôl, a'i fod wedi darllen ac yn cytuno i ddilyn y Llawlyfr Gwirfoddolwyr. Rydym hefyd yn gofyn iddynt ddarparu manylion cyswllt mewn argyfwng ar y cam hwn.
  - Mae gwirfoddoli yn drefniant anffurfiol. Gall y gwirfoddolwr neu FoFC ddod â'r cytundeb i ben, ar unrhyw adeg, drwy roi gwybod i'r llall.
- Polisïau
  - Mae FoFC yn recriwtio gwirfoddolwyr yn unol â'i ddarpariaethau diogelu a'i Bolisi Preifatrwydd.
  - Mae gwirfoddolwyr hefyd wedi'u cynnwys gan bolisïau eraill sy'n berthnasol ar draws y sefydliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn ein Llawlyfr Gwirfoddolwyr. Bydd gwirfoddolwyr newydd yn dod o hyd i hyn yn eu pecyn croeso wrth ddechrau arni.
  - Mae ein ffurflen wybodaeth gwirfoddolwyr yn gofyn am euogfarnau troseddol heb eu disbyddu o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Nid yw cael euogfarn yn golygu na all rhywun wirfoddoli gyda ni. Pan fyddwn ni'n siarad â nhw am eu cais, gallwn drafod unrhyw euogfarnau bryd hynny.
  - Bydd rhai rolau yn ei gwneud yn ofynnol i FoFC ofyn am wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar yr ymgeisydd cyn y gallant ddechrau gwirfoddoli. Bydd hyn yn cael ei nodi'n glir yn y disgrifiad o'r rôl. Mae'r DBS yn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio da drwy wirio am gollfarnau sydd wedi disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddion ac ati. Mae cael gwiriad yn broses syml a rhad ac am ddim y bydd FoFC yn trefnu hyn. Gallwch ddysgu mwy am y DBS a'r gwiriadau y mae'n eu cynnal ar wefan GOV.UK yma.

## Dechrau arni

Bydd gwirfoddolwyr newydd yn derbyn:

- **Pecyn Croeso –** yr hanfodion:
    - Llawlyfr Gwirfoddolwyr — cyfeirlyfr defnyddiol, yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol.
    - Dogfennau canllaw cyffredinol FoFC — ynglŷn â sut mae ein hadeiladau'n cael eu defnyddio.
    - Gwybodaeth benodol i'w rôl wirfoddoli.
- **Cyflwyniad gyda'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr** — cyflwyniad i FoFC, briff ar ddiogelu a chyfle arall i ofyn cwestiynau.
- **Hyfforddiant** — pan fo'n berthnasol, gellir cynnig hyfforddiant neu arweiniad ychwanegol i wirfoddolwyr newydd a rhai cyfredol o bryd i'w gilydd i'w helpu yn eu rôl ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

## Beth arall all gwirfoddolwyr ei ddisgwyl gan FoFC?

- **Cefnogaeth**
    - Cyfathrebu rheolaidd — e-newyddion misol FoFC, diweddariadau i wirfoddolwyr gan gynnwys am effaith yr hyn maen nhw'n ei wneud i FoFC.
    - Cefnogaeth gan y Cydlynydd Gwirfoddolwyr, sy'n croesawu eich adborth.
    - Cyfleoedd i rwydweithio gyda gwirfoddolwyr eraill FoFC.
    - Arolwg gwirfoddolwyr achlysurol — cadwch ni'n gyfredol a rhannwch eich barn ar wirfoddoli gyda ni.
- **Treuliau** — mae ein holl rolau gwirfoddol yn ddi-dâl. Ond gallwn ad-dalu gwariant dilys allan o'r boced sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwirfoddoli gyda ni, yn unol â pholisi treuliau FoFC.
- **Yswiriant**
    - Mae yswiriant y sefydliad yn cynnwys gwirfoddolwyr a'r gweithgareddau maen nhw'n eu gwneud i FoFC.
    - Mae ein hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cwmpasu aelodau'r cyhoedd yn safleoedd a digwyddiadau FoFC.
- **Offer** – unrhyw ddeunyddiau neu offer (megis offer amddiffynnol personol) sy'n angenrheidiol i'r gwirfoddolwr gyflawni ei weithgareddau'n gywir ac yn ddiogel.

## Yr hyn a ofynnwn gan wirfoddolwyr

Gofynnwn i wirfoddolwyr y FoFC ddilyn y Llawlyfr Gwirfoddolwyr; gwneud y gweithgareddau y maent wedi cytuno iddynt (neu roi gwybod i ni os na allant); gofyn am gymorth os oes angen; bod yn barchus o holl bobl y FoFC; a chynnal ein gwerthoedd a'n henw da.

## Beth os bydd rhywbeth yn mynd o'i le?

Ein nod yw delio ag unrhyw faterion neu broblemau sy'n codi yn brydlon ac yn deg, ac **yn anffurfiol** yn y lle cyntaf. Dylai gwirfoddolwyr gysylltu â'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr neu swyddfa FoFC ynglŷn ag unrhyw faterion neu broblemau, er mwyn gallu cymryd camau priodol.

Os na ellir datrys y mater yn y ffordd honno, neu os yw rhywun yn dymuno gwneud cwyn **ffurfiol**, caiff ei gyfeirio at y Cyfarwyddwr neu at Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, a fydd yn ymchwilio i'r mater ac yn penderfynu ar unrhyw gamau i'w cymryd.

Mai 2025